



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 8FED TACHWEDD, 2022

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol – Zoom

(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

Sioned Mai Jones

01286 679665

SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 31 Hydref 2022)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Louise Hughes
Rob Triggs
Eryl Jones-Williams

Aelodau Cyfetholedig:

Cynghorydd Matthew Harris
Cynghorydd Robert Williams
Cynghorydd Brian Woolley
Dr John Smith
Wendy Ponsford
John Johnson

Mark James
Martin Parouty
Peter Appleton

Ian Sadler

Grwp Gwella Cyrchfannau Abermaw
Cyngor Tref Abermaw
Cyngor Cymuned Arthog
Grwp Mynediad Traphont Abermaw
Clwb Hwyllo Merioneth
Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae
Ceredigion
Cymdeithas y Bad Achub
Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw
Cymrychiolydd Pwyllgor Grwp
Gweithredu Lleol Pysgodfeys Bae
Ceredigion
Pwyllgor Ras y Tri Copa

Sylwedyddion:

Stephen Tudor
Nia Jeffreys

Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2022/23.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2022/23.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 22^{ain} o Fawrth 2022 fel rhai cywir.

6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

11 - 25

I ystyried

- a) adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau
- b) adroddiad yr Harbwrfeistr

7. ETHOL SYLWEDYDDION

I ethol sylwedyddion i wasanaethu ar y canlynol –

- a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
- b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
- c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

I ystyried materion ar gais yr Aelodau.

9. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar yr 28^{ain} o Fawrth 2023.

Eitem 5

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 22/03/22

Presenoldeb:

Aelodau: Y Cyngorydd Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd), Cyngorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cyngorydd Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Peter Appleton (Cynrychiolydd Pwyllgor Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw) ac Ian Sadler (Pwyllgor Ras y Tri Copa).

Swyddogion: Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Bergitte Evans (Harbwr Feistr Abermaw), Llyr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi), Cyngorydd Brian Woolley (Cyngor Cymuned Arthog), Mr John Johnson (Cymdeithas Bysgota Abermaw a Bae Ceredigion), Cyngorydd Matthew Harris (Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw) ac Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- **Nofio Awyr Agored** – Nodwyd bod y Bartneriaeth Awyr Agored wedi awgrymu y dylid cysylltu â chwmni 'Swim Wales' i drafod datblygiadau nofio awyr agored yn yr Harbwr. Eglurwyd y bydd datblygiadau yn cael eu rhannu efo'r Harbwr Feistr neu efo'r Rheolwr Morwrol.

4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022.

Cyn cychwyn nodwyd bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn anfon ei ddymuniadau gorau i'r Pwyllgor. Gobeithiai fod yn ôl yn ei waith cyn diwedd mis Mai. Dymuna'r Pwyllgor anfon eu ddymuniadau a gwellhad buan at Arthur.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod

Adroddwyd bod y ceisiadau i gyd wedi cael eu hanfon i'r cyn-gwsmeriaid a bod rhai eisoes wedi dychwelyd. Bydd y system Cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar lein yn cael ei lansio wythnos yma. Nodwyd bod oedi efo'r system o gadarnhau angorfa ar lein yn yr holl harbyrau; ychwanegwyd bod y system yn prysur ddatblygu a bydd yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023.

Cod Diogelwch Morwrol Porthladdoedd

Nodwyd bod archwiliadau wedi eu cynnal gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a bod statws cod diogelwch Gwynedd wedi ei gadarnhau. Eglurwyd bod datganiad wedi ei arwyddo gan yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned wedi ei anfon i'r asiantaeth i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r cod. Bydd y cod diogelwch harbyrau yn parhau i gael ei adolygu yn rheolaidd. Pwysleisiwyd bod y tîm harbyrau yn dibynnu ar fewnbwn aelodau'r Pwyllgor gan nodi ei bod yn bwysig dod a materion sy'n ymwneud â diogelwch yr harbwr i sylw Swyddogion.

Holiwyd beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad Cenedlaethol ynglŷn â jet-sgi. Nodwyd bod sylwadau cynhwysfawr wedi eu cyflwyno i'r Llywodraeth. Rhagwelir y bydd ymateb gan y Llywodraeth tua canol y flwyddyn a bydd y sylwadau hyn ar gael i aelodau'r Pwyllgor. Ychwanegwyd bod croeso i aelodau'r Pwyllgor dderbyn copi o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad os ydynt yn dymuno.

Adroddwyd na fydd digwyddiad y 'Black Rock Blast' yn digwydd eleni ychwaith oherwydd Cofid. Gobeithiwyd ei gynnal y flwyddyn nesaf. Nodwyd bod y digwyddiad hwn wedi rhoi plattform cadarn i dynnu sylw at ymddygiad da yn ymwneud a chychod pŵer a jet-sgis.

Gwnaethpwyd sylw am gwynion gafodd eu derbyn ynglŷn â jet-sgis ble deliodd y Rheolwr Morwrol yn gyflym â'r cwynion, roedd y Cynghorwyr yn hapus iawn efo'r canlyniad. Anogwyd y Cynghorwyr i gysylltu â'r tîm harbyrau cyn gynted ag y bo modd os ydynt yn derbyn cwynion er mwyn gallu ymateb a delio efo'r sefyllfa yn syth. Ychwanegwyd nad oedd nifer fawr o gwynion wedi eu derbyn a bod llawer o'r cwynion yn ymwneud â diffyg dealltwriaeth o reoliadau. Gobeithiwyd y bydd Heddwras yn mynychu gwahanol harbyrau dros gyfnod yr Haf ac yn mynd allan o gwmpas yr arfordir. Nodwyd bod ail afael yn y cydweithio oedd yn arfer bodoli efo Heddwras yn gam positif.

Materion Staffio

Adroddwyd y bydd yr Harbwr Feistr presennol yn gadael ei swydd ar y 1af Ebrill. Bydd angen edrych ar benodi Harbwr Feistr newydd i Abermaw gan gydnabod y bydd yn her ceisio cael presenoldeb yn yr harbwr mor aml dros y Gwanwyn a dechrau tymor yr haf. Cymerwyd y cyfle i ddymuno'n dda i'r Harbwr Feistr yn ei gyrfa gan nodi mai hi yw'r unig Harbwr Feistr sy'n ferch drwy Gymru. Canmolwyd ei gwaith gan nodi ei bod hi o hyd yn broffesiynol a brwdfrydig a dymunwyd pob llwyddiant iddi. Gobeithiwyd y bydd yr hysbyseb swydd allan yn fuan.

Adroddwyd y bydd y cymhorthydd harbwr yn parhau yn ei swydd am y tro ond bob bwriad ganddo i adael ym mis Medi ac y byddai hyn hefyd yn gadael bwllch arall. Ychwanegwyd bod y farchnad gyflogaeth bresennol yn peri pryder gan nad yw pobl yn dueddol o geisio am swyddi. Nodwyd y bydd angen penodi 5 aelod o staff achlysurol i draeth Abermaw dros gyfnod yr Haf a chymerwyd y cyfle i ofyn am ddealltwriaeth aelodau'r Pwyllgor a'u cefnogaeth yn y cyfnod heriol sydd i ddilyn. Efallai bydd angen i'r Rheolwr Morwrol gynorthwyo yn harbwr Porthmadog ac Abermaw dros y cyfnod ble bydd prinder staff i sicrhau bod trefniadau yn ddiogel. Dymuna'r Rheolwr Morwrol ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am yr holl gefnogaeth sydd wedi ei roi i staff yr harbwr yn Abermaw dros y blynyddoedd.

Materion Ariannol

Rhannwyd gwybodaeth am sefyllfa ariannol a chyllidebau'r harbyrau a'r ddau marina hyd at ddiwedd Chwefror 2022. Soniwyd am y cyllidebau sydd yn bodoli ynghyd a'r targed incwm y gobeithir ei gyrraedd a manylwyd am y gwariant net sef y gost i'r trethdalwyr er mwyn cynnal harbwr Abermaw. Cyfeiriwyd at y tanwariant a'r gôr-wariant mewn gwahanol gategoriau ond yn gyffredinol adroddwyd bod y gyllideb yn edrych yn iach iawn gyda £8,000 ar ôl yn weddill ym mis Mawrth. Bydd angen cymryd i ystyried materion staff a thalu anfonebau ond credwyd bod yr harbwr mewn sefyllfa gyllidol gyfforddus.

Ffioedd a Thaliadau

Nodwyd y bydd ffioedd yn cynyddu 4% sydd yn llai na'r gyfradd chwyddiant. Eglurwyd bod yr argymhelliad hwn wedi ei gymeradwyo gan y swyddogion Cyllid a'r Arweinydd Portffolio ac yn aros am gymeradwyaeth gan Brif Swyddogion y Cyngor. Nodwyd bod gohebu wedi digwydd efo'r cwsmeriaid er mwyn rhoi rhag rybudd o'r cynnydd. Adroddwyd y bydd y ffi ar gyfer cychod ymweld yn cael ei gynyddu 20%. Nid oedd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau.

(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Rhedwyd drwy'r adroddiad gan gyfeirio at y stormydd cryf diweddar ac apeliwyd i aelodau'r Pwyllgor gysylltu â'r tîm harbyrau os ydynt yn gweld unrhyw beth o'i le yn yr Harbwr. Soniwyd am yr ymsuddiant yn yr Harbwr ac adroddwyd ar y gwaith sydd yn digwydd yn bresennol efo Ymgynghoriaeth Gwynedd i wneud gwelliannau.

Cyfeiriwyd at y Pontŵn a'r dryswch a chamddealltwriaeth diweddar am ei berchnogaeth. Nodwyd bod Awdurdod yr Harbwr yn awyddus i weithio efo'r Cyngor Tref a'r Clwb Hwyllo ar ddefnydd y Pontŵn; ychwanegwyd bod cryn waith angen ei wneud arno i sicrhau ei ddiogelwch a'i fod yn adnodd pwysig. Nodwyd bod angen edrych ar reolaeth y Pontŵn ac osgoi i'r holl gostau o'i gynnal ddisgyn ar y Cyngor.

Adroddwyd ar y cais sydd wedi ei dderbyn i adeiladu Llithrfa newydd gan Glwb Hwyllo Meirionnydd. Nodwyd nad yw'r gwasanaeth wedi cefnogi'r cais yma ac ni ellir ei ariannu efo refeniw. Bydd y Rheolwr Morwrol yn trafod ymhellach efo'r Clwb Hwyllo.

Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor

Nodwyd bod Cyngor Tref Abermaw heb gymryd perchnogaeth o'r Pontŵn eto, ni all hyn ddigwydd nes bydd y Cyngor Tref wedi derbyn yr adroddiad ac wedi darganfod os yw'n ymarferol o ran arian i wneud hyn. Nododd y Rheolwr Morwrol y bydd yn rhaid i rywun gymryd cyfrifoldeb ac archwilio'r Pontŵn; am y tro bydd staff harbwr Abermaw yn ei archwilio yn rheolaidd.

Ychwanegwyd gan un o aelodau'r Pwyllgor bod y Pontŵn yn ased a budd i harbwr Abermaw a bod angen sicrhau y bydd yn cael ei warchod. Mynegwyd bod y Clwb Hwyllo efo grant ar gyfer y Pontŵn ond pryderwyd bod amodau i'r grantiau; dymunwyd i'r tîm morwrol edrych mewn i sefyllfa'r grant. Bydd Cyngor Tref Abermaw yn cysylltu efo'r tîm morwrol pan fydd yr adroddiad wedi ei dderbyn ac i drafod pa ddatblygiadau fydd yn deillio o hynny. Nododd aelod y Grŵp Mynediad Traphont Abermaw y byddai'r holl ddogfennaeth wreiddiol a'r cais gwreiddiol ar gael i bwy bynnag fydd yn cymryd perchnogaeth o'r Pontŵn.

(c) Astudiaeth Posibilrwydd Carthu

Nodwyd y dylai bawb fod wedi derbyn copi o'r adroddiad Carthu ac i aelodau gysylltu efo'r Rheolwr Morwrol os ydynt eisiau copi papur o'r adroddiad. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar gyfer y disgwyliadau pe bai cynllun i garthu harbwr Abermaw. Ychwanegwyd bod costau sylweddol iawn i hyn o dros £500,000.

Bydd astudiaeth bellach angen ei wneud i gydymffurfio â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru ac efallai bydd angen trwydded forwrol i wneud y gwaith. Nodwyd y bydd angen edrych ar yr adroddiad yn fanwl a phenderfynu pa lwybr i'w gymryd ac os ydyw yn briodol i edrych i fuddsoddi i gael astudiaethau pellach ynglŷn â charthu harbwr Abermaw a pa fudd fyddai yn dod allan o wneud hyn. Nododd y Rheolwr Morwrol ei fod yn methu cadarnhau y bydd arian ar gael i fuddsoddi gwaith pellach ar hyn o bryd.

Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor

Soniwyd am gynlluniau a phrosiectau gafodd eu creu flynyddoedd yn ôl gan Gyngor dosbarth Meirionnydd a holwyd os ydi'r prosiectau yma ar gael yn unrhyw le. Nodwyd bod prosiectau yn dyddio nôl i 1994 ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a gall y tîm morwrol eu darganfod pe bai angen. Nodwyd mai'r bwriad bryd hynny oedd rhoi marina yn ardal y Baddon drwy garthu ac ychwanegu pontŵn. Oherwydd costau hirdymor penderfynodd y pwyllgor ar y pryd i beidio bwrw mlaen efo'r prosiect yma. Adroddwyd hefyd ar gynllun oedd yn bodoli i greu ynys yng nghanol yr harbwr i geisio cyflymu'r dŵr i garthu'r harbwr yn fwy cyflym ond bod y cynllun hwn wedi disgyn drwodd oherwydd ei fod yn cael effaith amgylcheddol negyddol. Nodwyd bod y cynlluniau hyn ar gael.

Holwyd beth yw'r camau nesaf a syniad o'r gost. Adroddwyd dros y misoedd nesaf bydd y tîm morwrol yn ceisio fframio rhaglen ond nad yw'r gwaith yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ar hyn o bryd oherwydd bod rhaid canolbwyntio ar y sefyllfa staffio a rhedeg yr harbwr. Nodwyd y byddai costau cychwynnol e.e. costau modelu; bydd y Rheolwr Morwrol yn cynnal trafodaethau anffurfiol efo Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio derbyn sylwadau a chynghor ar y ffordd ymlaen.

Ychwanegodd cynrychiolydd y Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion y byddai yn siomedig pe bai dim byd pellach yn digwydd yn dilyn derbyn yr adroddiad. Cadarnhaodd hefyd nad oedd arian pellach ar gael ond bod yr arian oedd wedi ei bennu i garthu harbwr Abermaw dal ar gael sef cyfanswm o £40,000. Nodwyd bod angen ceisio am yr arian yno cyn mis Medi; bydd y gronfa ariannu yn cau bryd hynny felly bydd angen i'r tîm morwrol anfon anfonebau cyn gynted ag y bo modd.

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i gynrychiolydd y Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Ceredigion am y gwaith a'r gefnogaeth a bydd y Rheolwr Morwrol yn creu'r anfonebau i dargedu'r arian ar gyfer y gwaith. Ychwanegodd ei fod yn deall y rhwystredigaeth ond angen darlun clir o'r sefyllfa. Nodwyd na fydd dim yn digwydd y flwyddyn yma heblaw ymgynghori pellach efo Cyfoeth Naturiol Cymru ac edrych ar dderbyn costau modelu.

Soniwyd am bosibilrwydd i'w ystyried yn y tymor hir o osod peipen carthu o dan y lôn, yn debyg i'r hyn gafodd ei osod ym Mhwllheli sef peipen o'r harbwr i'r Gogledd. Nodwyd bod nifer o bosibiliadau i'w hystyried ond rhaid trafod ymhellach efo Ymgynghoriaeth Gwynedd.

Cyfeiriwyd at y fframwaith adfywio a'r gwaith sy'n digwydd i weld beth yw'r prif faterion sy'n wynebu ardaloedd. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned bod yr adroddiad yn ddefnyddiol ac yn gosod sail o ran be sydd angen ei wneud a'r ystyriaethau a chostau o ran carthu. Ychwanegwyd bod angen rheoli disgwyliadau a bod amcan bris ar gyfer y gwaith yn £820,000. Rhaid edrych os oes cyfle i blethu'r cynllun yma efo cynlluniau ehangach yn yr ardal. Nodwyd bod sail i wneud gwaith pellach ond bod pryder o ran y gofyn

am adnoddau ar gyfer y cam nesaf; cadarnhawyd y bydd cost o £150,000 i wneud yr astudiaethau pellach.

Cwestiynwyd os oes lle i Lywodraeth Cymru edrych fewn i faterion fel hyn am fod costau cychwynnol o £150,000 yn annheg ar y gymuned ac ar y Cyngor.

I gloi nododd aelod o'r Pwyllgor bod yr adroddiad yn ddefnyddiol ond nad yw'r cynllun mawr yn mynd i helpu yn y tymor byr. Pryderwyd bod angen gweithredu yn fuan er mwyn osgoi colli rhan o'r harbwr a'r traeth. Credwyd bod angen rhoi ystyriaeth lawn i'r uchod gan nad oedd gwario sylweddol wedi bod ar draeth Abermaw ers blynyddoedd.

5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Ramp yn Fairbourne

Gwnaethpwyd cais gan grŵp cymunedol am arian ar gyfer gosod ramp i alluogi preswylwyr ac ymwelwyr Fairbourne i allu cael mynediad i'r traeth. Nodwyd ei bod yn annheg nad oedd mynediad yn bodoli. Ychwanegwyd bod y Cyngor Cymuned yn ceisio dod o hyd i arian; bydd angen o gwmpas £50,000 i gyllido'r gost.

Nododd y Rheolwr Morwrol ei fod wedi cael trafodaethau efo Clerc Cyngor Cymuned Arthog am y ramp. Adroddodd y bydd angen i unrhyw beth gaiff ei ychwanegu yn Fairbourne fod yn gadarn a pheidio ag yn amharu ar y llif arfordirol a'i bod yn bwysig cael y trefniadau a'r hawliau priodol mewn lle. Nodwyd y byddai angen trwydded forol am ei fod o dan y marc dŵr llanw uchel cymedrig felly mae'n debyg y byddai'r gost yn llawer fwy na £50,000. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio cyfarfod efo Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl y Pasg i drafod eu gofynion ar y safle.

Eglurodd y Rheolwr Morwrol ymhellach ei fod wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer grantiau arfordirol ond nad oes capasiti i'w ddatblygu ar hyn o bryd. Nododd ei fod yn deall y rhwystredigaeth ac yn gobeithio cael trafodaeth bellach efo'r Cyngor Cymuned yn fuan.

Llecynnau yn y compownd a rheoli parcio yn y compownd.

Cyfeiriwyd ar y pwyntiau oedd wedi eu codi gan gynrychiolydd Cyngor Tref Abermaw mewn e-bost blaenorol. Nododd y Rheolwr Morwrol nad oedd ganddo ateb pendant i'r cwestiynau am yr uchod. Ychwanegodd y bydd oedi ar y cynlluniau oedd mewn lle oherwydd y bydd Harbwr Feistr newydd yn cael ei benodi a bydd angen caniatáu amser iddyn nhw setlo yn y rôl felly nid oes rhaglen bendant ar hyn o bryd.

Cofnodion

Holiwyd pwy sy'n derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd ac os ydynt yn cael trafodaeth bellach yn unrhyw le. Adroddwyd bod y cofnodion yn cael eu rhannu efo'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i'r Aelod Cabinet presennol am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd. Ychwanegwyd nad oes trafodaeth bellach yn y Cabinet o ganlyniad i gofnodion y Pwyllgor hwn ond bydd y tîm morwrol yn dod a materion pwysig ger bron y Tîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet pe bai angen.

Ras 10km Abermaw

Cymerodd gynrychiolydd y Pwyllgor Ras y Tri Copa y cyfle i sôn am y digwyddiad uchod fydd yn cael ei gynnal ar y 9fed o Orffennaf ac am y gwaith parhaus i allu cynnal y digwyddiad. Nodwyd ei fod yn ddigwyddiad mawr i Abermaw gyda gwaith paratoi mewn lle ers blynyddoedd. Ychwanegodd y bydd angen gofyn caniatâd i glirio wal gefn maes parcio'r Clwb

Hwyllo gan bod llawer o dywod wedi pentyrru yno. Diolchwyd am waith cynrychiolydd y Pwyllgor Ras y Tri Copa a gobeithiwyd y bydd y diwrnod yn llwyddiant.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i aelodau'r Pwyllgor, staff y Cyngor a staff yr harbwr am eu gwaith a'r gefnogaeth dros y blynyddoedd gan mai hwn fydd ei gyfarfod olaf. Dymunodd yn dda i bawb at y dyfodol.

Dymuna'r Rheolwr Morwrol ddiolch i'r Cadeirydd am ei holl waith, ei gyfeillgarwch a'i broffesiynoldeb gan gydnabod y cyd-weithio gwych sydd wedi cymryd lle dros y blynyddoedd. Ategwyd hyn gan aelodau'r Pwyllgor.

6. CYFARFOD NESAF

8 Tachwedd 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:15pm

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	8 Tachwedd 2022
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

1. Cyflwyniad.

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau Aelodau'r Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw ac i drafod materion sy'n ymwneud â rheolaeth a gweithrediad diogel yr harbwr.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno er sylw'r Pwyllgor ar faterion harbwr ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth 2022 i fis Hydref 2022, ac i dderbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.

- 2.1 Cafwyd gostyngiad yn nifer yr angorfeydd a ddefnyddir dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2022, roedd 64 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn yr harbwr. Mae hyn yn cymharu â 54 o gychod ar angorfeydd yn 2021 ac mae'n galonogol bod ychydig o gynnydd wedi bod yn y cyfanswm o'i gymharu â 2021.
- 2.2 Tra bod harbyrau eraill yng Ngwynedd wedi adlewyrchu gostyngiad bychan yn nifer y cwsmeriaid angorfeydd, mae'n braf nodi cynnydd yn nifer cwsmeriaid harbwr Abermaw eleni.
- 2.3 Bellach mae'n ofynnol i berchnogion cychod pŵer a badau dŵr personol sy'n bwriadu lansio yng Ngwynedd gofrestru eu badau pŵer ar-lein trwy Wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn, manteisiodd 2380 o berchnogion ar y cyfle i gofrestru eu badau pŵer ar-lein. Gan fod gwyliau tramor wedi gweld twf aruthrol eleni, yn enwedig ar ôl nifer o flynyddoedd lle'r oedd cyfyngiadau ar deithio, efallai bod hyn yn egluro rhywfaint ar pam y gwelwyd gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- 2.4 Yn ogystal â'r ffigyrau uchod, cofrestrwyd 136 o fadau pŵer ar bapur gan bobl sy'n ymweld â'r swyddfeydd morwrol amrywiol ledled Gwynedd. Hefyd, cofrestrwyd 82 cwch gyda pheiriant o dan 10 hp.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

- 3.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

- 3.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

4. Materion Staffio.

- 4.1 Yn dilyn ymadawriad aelod allweddol o staff Abermaw mae'r Gwasanaeth wedi penodi Harbwrfeistr newydd i'r swydd yn Abermaw. Dechreuodd yr Harbwrfeistr a benodwyd yn ei swydd ar y 1 Awst eleni. Tan y penodiad hwn, yr harbwrfeistr cynorthwyol oedd yn rheoli'r harbwr drwy gydol y tymor gan gyflawni holl swyddogaethau'r harbwrfeistr ar sail dros dro.
- 4.2 Bu i'r harbwrfeistr cynorthwyol, a fu gyda'r Gwasanaeth Morwrol ers nifer o flynyddoedd ar ôl cychwyn ar ei wasanaeth fel Swyddog Traeth, adael y swydd ar 30 Medi. Roedd yr harbwrfeistr cynorthwyol yn aelod poblogaidd o staff gyda chydweithwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd. Mae bellach yn cychwyn ar antur newydd yn Awstralia. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i'r harbwrfeistr cynorthwyol am ei ymroddiad i'r gwasanaeth ac am ei ymrwymiad i'w waith.
- 4.3 Rhagwelir y bydd swydd harbwrfeistr cynorthwyol Abermaw yn cael ei hysbysebu yn y flwyddyn newydd, gyda'r Gwasanaeth yn gallu galw ar staff a leolir yn harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi i gynorthwyo gyda'r gwaith yn harbwr Abermaw pan fo angen. Mae cynorthwydd harbwr dros dro wedi ei benodi i'r swydd dros y gaeaf.

5. Materion Ariannol.

- 5.1 Darperir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Prif Swyddog Morwrol.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod:
- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
 - Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
 - Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr a'r ôl-gerbyd cysylltiedig
 - Cynnal a chadw tiroedd a meinciau
 - Cynnal a chadw offer a chyfarpar

5.3 Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer tymor 2023/24, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.

Bydd y Gwasanaeth yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a weithredwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Hydref 2022, yn cynnwys y misoedd hynny, a chan gynnwys materion cynnal a chadw.

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	8 Tachwedd 2022
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	Gwasanaeth Morwrol

H 1 Materion Mordwyo

- 1.1 Mae cwrs y sianel fordwyo wrth ddynesu at yr harbwr wedi aros yn eithaf cyson dros gyfnod yr haf. Fodd bynnag, defnyddiwyd cymhorthydd mordwyo newydd dros dro ar yr ochr chwith yn y sianel ar ddechrau'r tymor prysur, i gynorthwyo morwyr i fordwyo tafod o dywod a oedd wedi symud i'r dyfroedd mordwyo.
- 1.2 Bydd dynesfa'r sianel i'r harbwr yn parhau i gael ei monitro gan staff yr harbwr yn ystod y cyfnod sydd i ddod a, phan fo angen, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i leoliadau'r marciau mordwyo yn dilyn cymeradwyaeth gan Trinity House gan ddefnyddio contractwr lleol.
- 1.3 Derbyniodd y Gwasanaeth ei archwiliad blynyddol ar Gymorthyddion Mordwyo yn Harbwr Abermaw a dynesfa'r sianel gan staff Trinity House ar 4 Hydref 2022. Yn dilyn archwiliad, canfuwyd bod yr holl gymhorthion mordwyo mewn cyflwr da ac effeithlon.
- 1.4 Ar hyn o bryd, mae un Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw; Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 05/22 - Nid yw marc dŵr diogel 'bwi Fairway' sydd wedi'i leoli yn 52° 42.796' N 004° 04.906' W ar ei safle priodol ar hyn o bryd.
- 1.4.1 Bydd bwi presennol 'Fairway' yn cael ei ddisodli gan fwi sydd newydd ei adnewyddu wedi'i baratoi gan staff yr harbwr. Pan fo'r amodau tywydd a'r llanw yn caniatáu, a phan fo'r contractwr angorfeydd ar gael, gosodir y bwi a adnewyddwyd yn ei safle cyn gynted â phosib, ynghyd ag angor newydd, cadwyn a chplynnau newydd, ar gost i'r Gwasanaeth o £2,964.22.
- 1.5 Atgoffir morwyr o'r angen i gysylltu gyda swyddfa'r harbwrfeistr cyn gadael neu ddynesu, i dderbyn yr wybodaeth fordwyo a'r wybodaeth tywydd ddiweddaraf.

H 2 Materion Gweithredol

- 2.1 **Tymor yr Haf:** Denodd tywydd yr haf nifer o ymwelwyr i gyffiniau'r harbwr. Tra bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr yn parchu amgylchedd yr harbwr, roedd cynnydd amlwg eto yn nifer y digwyddiadau o staff yn dioddef camdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae gollwng ysbwriel yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr yn parhau i fod yn broblem yn ystod misoedd yr haf.
- 2.2 Dioddefodd cwch patrôl 'Powercat' yr Harbwr broblemau peiriant drwy gydol yr haf. Er gwaethaf gwaith cynnal a chadw rheolaidd, dioddefodd y ddau beiriant o broblemau carbiwretor, yn sylfaenol oherwydd ansawdd y tanwydd sydd bellach yn cael ei gylchredeg yn gyffredinol. O ganlyniad, er mwyn sicrhau diogelwch y cwch a'r sawl sy'n ei ddefnyddio, mae'r Gwasanaeth nawr yn ystyried adnewyddu'r peiriannau ar y cwch ar gost o thua £15,000.

- 2.2.1 Mae'r ôl-gerbyd ffordd sy'n dal cwch patrôl yr harbwr hefyd wedi cael ei atgyweirio'n ddiweddar. Pan fydd wedi'i ddychwelyd o adran cynnal a chadw fflyd y Cyngor, bydd y cwch harbwr yn cael ei dynnu o'r dŵr a'i gludo i Harbwr Porthmadog i'w atgyweirio a'i storio am y gaeaf.

H 3 Cynnal a Chadw

- 3.1 Adnewyddwyd dwy o'r tair angorfa 'ymwelwyr' a weithredir gan y Gwasanaeth a'u hadleoli i ddŵr dyfnach yn yr harbwr cyn dechrau'r tymor prysur. Roedd hyn yn cynnwys darparu cadwyni codi, cyplynnau a bwylltiau newydd yn ogystal â bwiau angori 'Hippo' newydd. Cafodd y drydedd angorfa ymwelwyr, sydd wedi'i lleoli ger y bont reilffordd, ei harchwilio a'i chynnal a'i chadw hefyd gan gontractwr angorfeydd lleol.
- 3.1.1 Defnyddiwyd yr angorfeydd ymwelwyr drwy gydol yr haf, gyda nifer o ymwelwyr hefyd yn manteisio ar y cyfle i angori ger wal y cei.
- 3.1.2 Cynhaliwyd gwiriadau cynnal a chadw gan staff yr harbwr ar yr 'angorfeydd trot mawr' a'r 'angorfeydd trot bach' a osodwyd yn ddiweddar ac a weithredir gan y Gwasanaeth, i sicrhau diogelwch cwsmeriaid.
- 3.2 Mae mainc newydd wedi'i gosod gan staff yr harbwr, wedi'i lleoli ar flaen yr harbwr ger safle'r 'Lobster Pot'. Mae cost y fainc a'r plac cysylltiedig wedi'u talu gan y Swyddfa Gartref fel rhodd yn dilyn yr ymchwiliad annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol. Mae meinciau tebyg wedi'u gosod mewn gwahanol leoliadau o amgylch y Deyrnas Unedig.
- 3.3 Yn ystod yr haf mae staff yr harbwr wedi glanhau'r 'Tŷ Crwn' hanesyddol sydd wedi'i leoli ger lloc yr harbwr gan adnewyddu'r cloeon diogelwch ar y giatau.

H 4 Materion Eraill

- 4.1 **Gwaith Adfer ar Bont Reilffordd Abermaw:** Mae'r gwaith ar y bont yn parhau. Ar hyn o bryd mae'r bont yn agored i'r cyhoedd a thraffig rheilffordd tan 2000 o'r gloch ar 13 Tachwedd pan fydd yn cau ar gyfer gwaith strwythurol pellach. Bydd y bont yn ailagor ar 10 Rhagfyr dros gyfnod y Nadolig.
- 4.2 **Lloc yr harbwr:** Mae'r Gwasanaeth wedi gwerthfawrogi'r ymdrechion a wnaed gan ddeiliaid lleiniau i dacluso eu lleiniau unigol yn y lloc. Mae gwaith pellach i'w wneud i alluogi atgyfnerthu terfynau lleiniau unigol gan gynnwys cael gwared ar dywod sydd wedi cronni.
- 4.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu adnewyddu'r rhwystr traffig ar waelod ffordd y lloc gyda rhwystr math awtomatig, i atal defnydd anawdurdodedig o'r manau parcio ceir ar y safle. Mae amcangyfrif o gostau'r prosiect yn cael ei gasglu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, bydd y rhwystr presennol yn cael ei gynnal a'i gadw gan staff yr harbwr.

H5 Digwyddiadau

- 5.1 Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn yr harbwr ac ar y prif draeth gerllaw yn ystod misoedd yr haf, yn cynnwys:
- Dathliadau Jiwibili'r Frenhines
 - Gŵyl Fwyd Abermaw
 - Ras Ffordd 10k Barmouth Striders
 - Ras y Tri Chopa
 - Gŵyl Farcud

- 5.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau i'r dyfodol o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw i swyddfa'r harbwr. Ni chaniateir cynnal unrhyw ddiwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi ei dderbyn.

CYNGOR GWYNEDD.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR []

1. Enw

Gelwir y Pwyllgor yn Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr [].

2. Statws

2.1 Sefydlir y Pwyllgor dan erthygl 6 Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998

neu

Sefydlir y Pwyllgor dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Gabinet y Cyngor. (Gan y Cabinet mae'r swyddogaeth a'r cyfrifoldeb o weithredu fel awdurdod harbwr).

3. Aelodaeth.

3.1 Aelodaeth y Pwyllgor fydd:

- Hyd at bedwar aelod lleol o Gyngor Gwynedd.
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n dal portffolio awdurdod harbwr.
- Un aelod o Gyngor Tref []
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr.

3.2 Cabinet y Cyngor fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor a hynny yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor a defnyddwyr yr harbwr.

3.3 Tymor aelodaeth aelodau'r Pwyllgor fydd:

- tan ddyddiad nesaf etholiad llywodraeth leol arferol
- tan y bydd yr aelod yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor
- tan y bydd yr aelod yn peidio â bod yn gynghorydd neu'n peidio â chynrychioli'r buddiant y cafodd ei benodi i'r Pwyllgor i'w chynrychioli
- tan y bydd y Cabinet yn penodi aelod arall yn ei (l)le (pa un bynnag fo fyrraf).

4. Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

4.1 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i gadeirio ei gyfarfodydd.

4.2 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor bydd y Pwyllgor yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i weithredu yn absenoldeb y Cadeirydd.

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

5. Cworwm a Phleidleisio.

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

6. Amllder Cyfarfodydd.

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

7. Cylch Gorchwyl.

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

8. Trefn y cyfarfodydd.

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.

Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

Cyfeirnod	Mesurysdd	2020/21	2021/22	Uchelgais 2022/23	2022											2023			Sylwadau /Rhesw'n dros y perfformiad																				
					Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror		Mawrth																			
M1	Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd marinas ac angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd.				759	759	759	767	767	767	767	767	767																										Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriaid i barhau i angori yng Ngwynedd. Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn yn Hafan. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor ac o bosib effaith Brexit.
	Nifer cwsmeriaid Hafan Pwllheli				378	378	378	406	406	406	406	406	406																									Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor.	
	Nifer cwsmeriaid Doc Fictoria				89	89	89	94	94	94	94	94	94																									Marina yn llawn gyda rhestr aros.	
	Nifer cwsmeriaid Harbwr Pwllheli				50	50	50	38	38	38	38	38	38																									Nifer cychod ar angorfa yn yr harbwr allanol wedi aros yn gyson yn unol a'r disgwyl. Plas heli yn cynnig angorfeydd wedi cael effaith ar niferoedd yn yr harbwr allanol.	
	Nifer cwsmeriaid Aberdyfi				76	76	76	72	72	72	72	72	72																									Nifer Cychod Pŵer wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio dyddiol	
	Nifer cwsmeriaid Abermaw				54	54	54	57	64	64	64	64	64																										
	Nifer cwsmeriaid Porthmadog				112	112	112	100	104	104	104	104	104																										Nifer gwsmeriaid wedi goswng. Dim rheswm penodol ond rhai wedi cymryd angorfa yn Hafan.

Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned


Tud. 18

M2	Bodddhad Cwsmer Harbygrau																			Yn 2021/22, caifodd y gyfwr ei rholi yn seliedig ar holliadur a gylchredwyd yn Gaeaf 2021. Ewrieddtr cymal gr un ymgynghoriad gyda Doc Fictoria a Hafan yn gaeaf 2022. Nid oes holliadur wedi ei sefydlu ar gyfer harbygrau eraill hyd yma.
	Hafan Pwllheli																			Hafan Pwllheli - 2021/22 Nifer gwsmeriaid Angorfa Blynyddol = 378 1.Anfodlon 2.12% - Nifer Cwsmer = 8 2.Bodlon - 10.53% - Nifer Cwsmer = 40 3.Gweddol bodlon - 25.42% - Nifer Cwsmer = 97 4.Bodlon iawn - 61.86% - Nifer Cwsmer = 233 Holliadur yn seliedig ar drefn 2021 ble caiff yr holliadur ei anfon drwy drefniant gyda'r PMBHA
	Bodlon iawn				61.86%	61.86%	61.86%													
	Bodlon				10.53%	10.53%	10.53%													
	Gweddol Fodlon				25.42%	25.42%	25.42%													
	Anfodlon				2.12%	2.12%	2.12%													
	Cyfanswm Bodlon iawn, Bodlon & Gweddol Fodlon																			
	Doc Fictoria																			Doc Fictoria Nifer gwsmeriaid Angorfa Blynyddol = 90 1.Anfodlon - 5.6% - Nifer Cwsmer = 5 2.Bodlon - 30.2% - Nifer Cwsmer = 27 3.Gweddol bodlon - 47.2% - Nifer Cwsmer = 42 4.Bodlon iawn - 17.0% - Nifer Cwsmer = 16 Holliadur yn seliedig ar drefn 2021 ble caiff yr holliadur ei anfon drwy drefniant gyda'r DFBHA
	Bodlon iawn				17.00%	17.00%	17.00%													
	Bodlon				47.20%	47.20%	47.20%													
	Gweddol Fodlon				30.20%	30.20%	30.20%													
	Anfodlon				5.60%	5.60%	5.60%													
	Cyfanswm Bodlon iawn, Bodlon & Gweddol Fodlon																			

Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

Cyfeirnod	Mesur ydd	2020/21	2021/22	Uchelgais 2022/23	2022												2023			Sylweddau (Rhwystrau a drosgyrru perfformiad)							
					Ionawr	Chwefror	Mawrth	Epril	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr	Chwefror	Mawrth								
M3	Nifer Gychod Pwer / Badau Dŵr Personol wedi eu trwyddedu. Gwybodaeth er cadarnhau fod yna sutem cofrestru penodol ar gyfer adnabod pob cwch pwer neu Fâd Dŵr Personol sydd yn lansio yng Ngwynedd.					2,434	2,434	2,434	2,380	2,380	2,380	2,380	2,380														Lleihad yn y nifer a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth a 2021. Hyn ddim yn anisgwyl oherwydd teithio tramor wedi eil gychwyn. Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cymydd yn niferoedd cychod wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob cwch ar arfordi gwydd yn arddangos Hawlen Cofrestru. Yn 2022 roedd angen i bob cwsmer gofrestru arlein ond mae rhai cwsmeriad ddim gyda gallu i wneud hyn ac fe fu i cyfanswm 136 gofrestru ar ddull ffurflen papur ar y safle. Cofrestwyd 82 cwch gyda peiriant llai na 10Hp ac nid yw y rhain wedi ei cynnwys yn y ffigwr.
M4	Graddfa adennill Gwasanaeth Morwrol. Dangosyd yn cyflwyno gwybodaeth ar 'werth am arian' drwy gymharu lefel incwm gyda lefel gwariant.																										(£5,163) DG53 (£475) DG54 (£418) DG55 (£6,525) DG60 (£7,021) DG63 (£10,926) Cyfanswm 2021/22 yn well na gwariant = £221,159 . Canran Graddfa Adennill yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan yr Uned Cyllid. Byddai Monitro Chwarteol yn gallu dangos os ydym ar trac.
M5	Canran Cymorthyddion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac arfordir Cyngor Gwynedd yn cael eu rheoli a gwasanaethu yn unol a gofynion Tŷ'r Drindod. Canran Rhybuddion i Forwyr yn cael eu cyhoeddi o fewn 24 awr i gymhorthydd morwdwyo dod oddi ar ei safle priodol neu fod diffyg yn y cymhorthydd mordwyo.					100%	100%	100%	100%	95%	100%	100%	100%														Hyd yma rydym ar trac. Archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi ei cwblhau mis Medi 2021. Cydymffurfiaeth a Cod Diogelwch Porthladdoedd sydd cael ei archwilio gan Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA). Bydd archwiliad Tŷ'r Drindod nesaf ym mis Hydref 2022.

Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned




Sylwadau: Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blynyddyn. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor.

** Morwrol i gynorthwyo gyda creu graff Bodlonrwydd Cwsmer pan fydd y data

Sylwadau: Yn 2021/22, cafodd y sylw ei rhoi yn seliedig ar holiadur a gylchredwyd yn Gaeaf 2021. Bwriedir cynnal yr un ymgynghoriad gyda Doc Fictoria a Hafan yn gaeaf 2022. Nid oes holiadur wedi ei sefyldu ar gyfer harbyrau eraill hyd yma.

Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

M3 NIFER GYCHOD PWER / BADAU DŴR PERSONOL WEDI EU TRWYDDEDU. GWYBODAETH ER CADARNHAU FOD YNA SUTEM COFRESTRU PENODOL AR GYFER ADNABOD POB CWCH PWER NEU FÂD DŴR PERSONOL SYDD YN LANSIO YNG NGWYNEDD.




Sylwadau: Lleihad yn y nifer a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth a 2021. Hyn ddim yn anisgwyl oherwydd teithio tramor wedi eil gychwyn. Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd cychod wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob cwch ar arfordi gwydd yn arddangos Hawlen Cofrestru. Yn 2022 roedd angen i pob cwsmer gofrestru ar lein ond mae rhai cwsmeriad ddim gyda gallu i wneud hyn ac fe fu i

M4 GRADDDFA ADENNILL GWASANAETH MORWROL. DANGOSYD YN CYFLWYNO GWYBODAETH AR 'WERTH AM ARIAN' DRWY GYM HARU LEFEL INCWM GYDA LEFEL GWARIANT.



Sylwadau: 2021/22-DG01 (£8,345) DG50 £50,461. DG51 (£233,654) DG52 (£5,163) DG53 £475 DG54 (£416) DG55 (£6,525) DG60 (£7,021) DG63 (£10,926) Cyfanswm 2021/22 yn well na gwariant = £221,159. Canran Graddfa Adennill yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan yr Uned Cyllid. Byddai Monitro Chwarterol yn gallu dangos os ydym ar trac.

Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned



Sylwadau Hyd yma rydym ar trac. Archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi ei cwblhau mis Medi 2021. Cydymffurfiaeth a Cod Diogelwch Porthladdoedd sydd cael ei archwilio gan Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA.) Bydd archwiliad Tŷ'r Drindod nesaf ym mis Hydref 2022.

Harbwr					
DG54 - HARBWR ABERMAW		01/04/2022 hyd at 31/03/2023			
GRWP	CYFRIF	DISGRIFIAD	CYLLIDEB	GWARIANT HYD AT 31/03/2023	GOR (TAN)
Staff	AGWE	Costau Staff	62,730	67,691	4,961
Eiddo	BEID	Tiroedd ac Eiddo	6,790	960	(5,830)
Trafnidiaeth	CTRA	Cwch a Cherbydau	820	90	(730)
Offer a Chelfi	DCYF	Offer a Chelfi	10,170	4,969	(5,201)
Incwm	INCM	Incwm Harbwr	(30,760)	(39,254)	(8,494)
Cyfanswm	CYF	Cyfanswm	49,750	34,457	(15,293)

Barmouth Harbour/Harbwr Abermaw

